


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF PORTHMADOG A GYNHALIWYD DRWY GYFRWNG ZOOM AR NOS FAWRTH CHWFROR 9 2021

Presennol : Cynghorwyr : Gwilym Jones (Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Aled Griffith, Jason Humphreys, Llywelyn Rhys, Ian Jones, Stuart Nashir-Hallard, Simon Brooks, Richard Williams, Dr Melfyn Edwards, Nia Jeffreys
Marian Roberts (Clerc)

Ymddiheuriadau. : Carol Hayes, Gareth Williams, Bethan Rees Jones,
(*Mae'r Cynghorwyr wedi derbyn copi o Y RHEOL ANGHYMWYSO AR GYFER PEIDIO MYNYCHU CYFARFODYDD trwy ebost gan Un Llais Cymru ar 9.2.21 yn dweud "Pan nad yw cynghorydd yn mynychu 'cyfarfod perthnasol' am gyfnod o chwe mis maent yn cael eu hanghymwyso'n awtomatig ac fe ddaw'r sedd yn wag ". Fe'u hatgoffir yn yr ebost hefyd ei bod yn ddyletswydd arnynt i fynychu cyfarfodydd rhithiol unai drwy gyfrwng Zoom neu dros y ffôn.)*

117.2.21 Adroddiad y Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod wrth ddarllen teyrnged bersonol a theimladwy i'r cyn Clerc Glenda Burke yn dilyn ei marwolaeth diweddar. Roedd yn anfon ei gydymdeimlad diffuant iawn ar ran y Cyngor i Tony Burke a'r merched, Caryl a Ffion. Cafwyd munud o ddistawrwydd er mwyn i'r Cynghorwyr dreulio munud i fyfyrto er parchus gof am Glenda.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno codi eitem brys i sylw'r Cyngor sef Cynlluniau Canol Tref Porthmadog. Y ddwy eitem sydd wedi eu cyflwyno hyd yn hyn yw :-

1. Dehongli hanes a threftadaeth y dref a chreu pamffled llwybrau hanesyddol. Ailwampio a gosod byrddau gwybodaeth presennol a newydd.

2 .Hysbysfwrdd cymunedol mewn man canolog o'r dref gyda digwyddiadur yno ond fe fyddai yn rhaid iddo fod yn un caeedig gyda un person/sefydliad hefo gorïad iddo.

Er mwyn symud y materion ymlaen gyda Chyngor Gwynedd, mae angen i'r Cyngor Tref gyflwyno amcangyfrif cyn gynted â phosibl ar gyfer y gwaith ynghyd â chadarnhad am bwy fydd yn gyfrifol am y prosiect. Os cytunir fod y Cyngor Tref yn cymryd yr awennau yna dylai'r Pwyllgorau Asedau a Chyllid gymryd yr awennau o bosibl. Dim ond 6 wythnos sydd i gael y cynllun i mewn. Dydi'r cyllid ddim wedi ei gadarnhau eto ond gobeithir cael 80% o'r gôst. Mae Hannah Joyce yn disgwyl cadarnhad yn ystod y dyddiau nesaf.

Mae'r Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru ynglyn â diffyg presenoldeb Cynghorwyr mewn cyfarfodydd y bydd yn rhaid cofio amdanynt yn y dyfodol nawr bod yr eithriad Coronafirws 6 mis ymhell y tu ôl i ni.

Yr unig fater arall y soniodd y Cadeirydd amdano yw ei bod yn braf gweld datrysiaid parhaol i'r wal ar Ffordd Borth gan fod gweithwyr bellach yn torri yn ôl i wyneb y graig.

118.2.21 Cadarnhau cywirdeb cofnodion

1. Cyfarfod Rheolaidd Ionawr 12 2021

Penderfynwyd :-

- dileu pwyntiau bwled 4 a 5
- ychwanegu " Swyddog cyfreithiol Cyngor Tref Porthmadog yw Clerc Cyngor Tref Porthmadog"
- ym mhwynt bwled 7 newid "gofyn" i "cofnodi penderfyniad gan y Cyngor"

2. Cyfarfod Arbennig Ionawr 21 2021

Cafwyd yn gywir

3. Pwyllgor Cyllid ac Eiddo Ionawr 26 2021.

Cafwyd yn gywir.

Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Simon Brooks – llythyr Cyngor Tref Nefyn; Cais Ariannol Yr Wylan; Cais Ariannol Clwb Peldroed Porthmadog

Cyng Richard Williams – Cais Ariannol Cae Pawb

Cyng Selwyn Griffiths - Cais Ariannol Cae Pawb ; Cais Ariannol Cylch Meithrin Porthmadog

Cyng Aled Griffith – Cais Ariannol Tremadog 200

Cyng Llywelyn Rhys - Cais Ariannol Clwb Peldroed Porthmadog

Cyng Nia Jeffreys – Cais Ariannol Yr Wylan; Cais Ariannol Cylch Meithrin Porthmadog; llythyr Suus Mulligan

Materion i'w dwyn gerbron :

119.2.21

Cynnig Cyng. Selwyn Griffiths :- penderfynu ar gynrychiolaeth y Cyngor ar Gorff Lywodraethwyr Ysgol Eifion Wyn

Penderfynwyd :- y Cynghorwyr i chwilio am aelod o'r cyhoedd i ymgymryd â'r swydd a dod ag enwau gerbron erbyn y cyfarfod nesaf.

120.2.21

Cynnig Cyng Simon Brooks :- adfer y Clwb leuenctid fel eitem sefydlog ar y rhaglen

Penderfynwyd :- gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf ar 9.3.21

121.2.21

Cynnig Cyng Aled Griffith :- Lleihau papurau/Costau/Amgylchedd – y Clerc i yrru dogfennau electroneg yn fisol i bob Cynghorydd (heblaw ceisiadau nawdd ariannol).

Penderfynwyd :- y Clerc i yrru holl ddogfennau pecyn y Cynghorwyr allan ar lein i bob aelod o'r Cyngor onibai fod Cynghorydd yn hysbysu'r Clerc am ei ddymuniad i dderbyn copi papur o'r pecyn. Cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

122.2.21

Cynnig Cyng Richard Williams:- penderfynu ar wariant incwm 10% Meysydd Parcio.

Penderfynwyd :- rhoi'r cyfrifoldeb i sicrhau bod yr arian yn cael ei weld yn cael ei wario er lles y cyhoedd yn nwylo'r Pwyllgor Cyllid.

123.2.21

Cynnig Cyng Richard Williams :- anfon llythyr i Gyngor Gwynedd yn cwyno am gyflwr palmentydd strydoedd cefn Porthmadog “dropped kerb “ a chroesffordd Stryd y Banc

Penderfynwyd :- y Clerc i ysgrifennu yn ôl y cynnig ac i holi am y posibilrwydd o osod goleuadau traffig ar draws y stryd o'r Swyddfa Bost i'r Factory Shop yn ôl cynnig Cyng Richard Williams, Cyng Melfyn Edwards yn eilio.

124.2.21

Cynnig Cyng Jason Humphreys :- Arbed costau cynnal/diweddaru a gwella ansawdd cynnwys gwefan y Cyngor Tref.

Penderfynwyd :- y Clerc i hysbysebu am tendrau yn y papurau bro am gwmnïau cynllunio gwefannau yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.

125.2.21

Cynnig Cyng Aled Griffith :-Problem pyllau dŵr ar y Cob. - A oes posib gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd er mwyn datrys problem y pyllau dŵr sydd wedi bod yn broblemus ac wedi gwaethygu ar ôl rhoi gwyneb newydd ar y ffordd ar ddechrau'r haf diwethaf?

Penderfynwyd :- y Clerc i ysgrifennu at Steffan Jones Adran Priffyrdd Gwynedd ac Adran Priffyrdd Dwyfor a Meirionnydd yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

126.2.21

Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

- Cynnig Cyng Simon Brooks :- adfer y Clwb Ieuentid fel eitem sefydlog ar y rhaglen
- Arafwch ymatebion gan Swyddogion Cyngor Gwynedd

127.2.21

Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ond cofnodi'r sylw fod Swyddogion Cyngor Gwynedd yn cymryd llawer gormod o amser yn ymateb i llythyrau ar faterion yn ymwneud â'r Cyngor Tref.

Gohebiaeth :

128.2.21

Michael Wainwright - Graeanu Morfa Lodge

Penderfynwyd :- gyrru'r ebyst ymlaen i sylw Catrin Wager.

129.2.21

Kirsty Williams - 66.12.20 Cwricwlwm Hanes Newydd

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

130.2.21

Dafydd Wyn Williams - 80.12.20 Gwasanaeth Bysus Alltwn

Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl at Dafydd Wyn Williams yn diolch iddo am ei sylwadau yn ôl cynnig Cyng Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

131.2.21

Ian Hunt - Datblygu tai ar safle'r sied wân

Penderfynwyd :- pasio'r llythyr ymlaen i Craig ap Iago a Dafydd Gibbard

132.2.21

Suus Mulligan - Treth Cyngor ail gartrefi

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth. Dymunodd Cyng Stuart Nashir-Hallard ddatgan iddo gytuno â'r sylwadau yn llythyr Suus Mulligan. Ni chyfranodd Cyng Selwyn Griffiths na Chyng Nia Jeffreys i'r drafodaeth.

133.2.21

Dŵr Cymru - Carthffosiaeth ar strydoedd Porthmadog – wedi gohirio ers cyfarfod 8.12.20 a chyfarfod 12.1.21

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

134.2.21

Hannah Joyce - 105.1.21 Cynlluniau canol tref Porthmadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

135.2.21

Nation.Cymru - Y sefyllfa dai yng Nghymru – Gadawodd Cyng Simon Brooks y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

136.2.21

Cyngor Tref Nefyn - Marchnad Tai Gwyliau

Penderfynwyd :- pasio'r llythyr ymlaen i Julie James yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Melfyn Edwards yn eilio.

137.2.21

Ysgol Eifionydd a'r Clwb Peldroed - 104.1.21 Diffibrilwyr

Penderfynwyd :- cario 'mlaen i archebu 2 ddiffibriliwr i'w gosod y tu allan i Lidl a Meithrinfa'r Hen Ysgol

138.2.21

Amanda Murray - 103.1.21 Toiledau Cyhoeddus

Penderfynwyd :- anfon ebost yn ôl at Amanda Murray yn gofyn faint yn union oedd y dreth busnes ar y toiledau.

139.2.21

Un Llais Cymru - Cofrestrfa Tir EM- Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

140.2.21**Materion Ariannol :****Derbyniadau :**

HSBC	Llog Banc Ionawr 2020	£ 00 .29
------	-----------------------	----------

Biliau i'w talu :**Awdurdodwyd y taliadau canlynol:-**

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê	£ 37.57
2	Marian Roberts	Costau teithio Ionawr 2021	£ 13.72
3	Marian Roberts	Cyflog Clerc Ionawr 2021	£ 603.20
4	Cyllid a thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Ionawr 2021	£ 150.80
5	Gareth Griffiths	Coed Nadolig 2020	£ 840.00
6	Gwilym Jones	Ad-daliad ffi cofrestru Cae Bodawen	£ 30.00
7	Ashley Hughes	Deunydd swyddfa (amlenni)	£ 46.78

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

141.2.21**Ceisiadau Ariannol 2020/2021**

ENW'R ELUSEN/ CYMDEITHAS/ CLWB	CYFRANIAD 2020/2021	CYNNIG/ EILIO
Cyfraniadau A137		
1. Yr Wylan	£500	Cyng. Llywelyn Rhys Cyng. Ian Jones
2. Eisteddfod yr Urdd	£100	Cyng. Jason Humphreys Cyng. Melfyn Edwards
3. Clwb Pêl Droed Porthmadog	£5,000	Cyng. Ian Jones Cyng. Nia Jeffreys
4. Tremadog 200 Digwyddiadau	£1,500	Cyng. Selwyn Griffiths Cyng. Jason Humphreys
5. Tremadog 200 Prosiectau Amgylcheddol	Rhannwyd y swm rhwng y ddau gais.	
6. Neuadd Goffa Tremadog	£3,000	Cyng. Jason Humphreys Cyng. Simon Brooks
7. Tŷ Gobaith		Gwrthodwyd
8. Cyfeillion Ysgol y Gorlan	£200	Cyng. Richard Williams Cyng. Selwyn Griffiths
9. Cylch Meithrin Porthmadog	£750	Cyng. Simon Brooks Cyng. Richard Williams
10. Clwb Rhandiroedd Cae Pawb	* £600	Cyng. Melfyn Edwards Cyng. Aled Griffith
11. Cylch Meithrin y Gorlan Fach	£750	Cyng. Simon Brooks Cyng. Selwyn Griffiths
Cyfraniadau A145		
Y Ganolfan		** Gwrthodwyd

* **Penderfynwyd** – ysgrifennu at bwyllgor Cae Pawb i ofyn iddynt ddarparu copi i'r Cyngor Tref o restr eiddo'r gymdeithas.

** Cododd Cyng Jason Humphreys fater o drefn i wrthod y cais nes bod y Ganolfan yn cofrestru ei hymddiredolwyr yn gyfreithiol.

Ceisiadau Cynllunio

Rhif Cais.: C21/0048/44/DT

Lleoliad: Eirianfa, 74 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE

Bwriad: Dymchwel y modurdy ac adeiladu estyniad.

Dim gwrthwynebiad.

(b) wedi ebostio 3.2.21

Cais Am Drwydded eiddo: Greenacres Parc Carafanau, Morfa Bychan, Porthmadog, LL49 9YF.

Mae penderfyniad wedi ei wneud gan y Cyngor i'ch hysbysu o unrhyw gais perthnasol a derbyniwyd.

Yn unol â'r Ddeddf, rhaid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig i'r awdurdod a'u derbyn erbyn **22/02/2021**.

Tynner eich sylw bod angen i unrhyw sylwadau gyfeirio at un neu fwy o'r amcanion trwyddedu a chael ei gefnogi gyda thystiolaeth.

Dim gwrthwynebiad ar yr amod iddynt beidio gwerthu alcohol y tu allan wedi 9 y.h.

(c) Rhif Cais :C21/0058/44/CC

Lleoliad: Hafdy, 1 Tan Y Foel, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE

Bwriad : Gwaith tocio i ddwy goeden dderw

Dim sylw.

Penderfynwyd :- y Clerc i yrru'r ceisiadau cynllunio (sydd o fewn y cyfyngiad amser) ar ffurf ebost fel gall y Cynghorwyr eu hagor er mwyn eu hastudio ar gyfer pasio barn arnynt mewn cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 y.h.

Yn gywir,

Marian Roberts

Marian Roberts (Clerc/Clerk), 29 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE

Ffôn / Tel : 01766 513709

E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com